# Asesiad o’r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Asesiad Effaith integredig yw hwn, sydd â'r nod o sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud penderfyniadau sy'n deg, yn ystyried tystiolaeth berthnasol, ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. **Dylid defnyddio AEDCh i lywio camau cyntaf gwneud penderfyniadau, yn ystod y cam cysyniad, nid pan fo penderfyniad wedi ei wneud eisoes, neu ar y pwynt pryd na ellir dylanwadu arno**. Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried ein cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan:

- Ddeddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ni fwriedir i'r broses AEDCh atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud, ond sicrhau ein bod wedi ystyried eu heffaith bosibl. Mae AEDCh hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'n rhoi tystiolaeth i ni ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

***Am gymorth i gwblhau eich AEDCh, cysylltwch â'r Tîm Cymunedau Cysylltiedig***

## Beth yw ystyr Tegwch?

Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd yn gorff annibynnol sy'n cynghori'r cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i sicrhau'r canlyniadau tecaf i bobl leol. Mae'r Comisiwn Tegwch wedi sefydlu pedair o **Egwyddorion Tegwch** y dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud – mae'r cwestiynau isod yn ddefnyddiol i'w hystyried cyn i chi ddechrau eich AEDCh.

| | |
|---|---|
| **Uniondeb** | A yw pobl yn cael eu trin mewn ffordd gyson, tra'n cydnabod eu gwahaniaethau (er enghraifft, angen, rhwystrau rhag gallu cyrchu gwasanaethau)? |
| | A fydd y bwlch rhwng y rhai sydd â mwy, a'r rhai sydd â llai yn cael ei leihau? |
| | A ystyriwyd buddiannau gwahanol grwpiau (gan gynnwys cymunedau lleiafrifol neu ddifreintiedig)? |
| **Blaenoriaeth** | A yw anghenion y rhai mwyaf difreintiedig ac agored i niwed ar draws y ddinas wedi cael blaenoriaeth? |
| | A ydych wedi ystyried canlyniadau anuniongyrchol posibl i gymunedau lleiafrifol/difreintiedig pan fo blaenoriaethau eraill yn cyfeirio penderfyniadau? |
| **Cynhwysiant** | A fydd lleisiau pawb y mae eich penderfyniad yn effeithio arnynt yn cael eu clywed? |
| | A yw pobl yn gallu cymryd rhan a siapio gwasanaeth, yn ogystal â'i dderbyn? |

| | |
|---|---|
| | A ydych wedi ystyried effaith eich penderfyniad ar y berthynas rhwng cymunedau, a'r mannau y maent yn eu rhannu? |
| **Cyfathrebu** | A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyson? |
| | Sut y caiff penderfyniadau eu cyfathrebu i bobl a gaiff eu heffeithio mewn ffordd glir, gyda'r cyfle am adborth? |

# Rhan 1: Adnabod

| | |
|---|---|
| Enw'r person sy'n cwblhau'r AEDCh | **Sheree Davies** |
| Rôl y person sy'n cwblhau'r AEDCh | **Swyddog Gwybodaeth a Datblygu Addysg** |
| Dyddiad cwblhau | **09/05/2023** |
| Pennaeth Gwasanaeth sydd wedi cymeradwyo'r AEDCh hwn | **Sarah Morgan - Pennaeth Addysg** |

**1. Beth sy'n cael ei asesu?** *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch(blychau) perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel y bo'n briodol)*

☐ Polisïau, arferion neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (sy'n addasu darparu gwasanaethau neu arferion cyflogaeth)

☒ Adolygu gwasanaeth neu ad-drefnu cynigion sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbed

☐ Pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☒ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion neu'r gymuned ehangach gan gynnwys comisiynu(dad gomisiynu) neu ddiwygio gwasanaethau

☒ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig

☐ Digwyddiadau cyhoeddus

☐ Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol

☐ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

☒ Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella)

☐ Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg

☐ Arall *esboniwch yn y blwch isod:*

## 2. Disgrifiwch nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol eich penderfyniad

Y canlyniad a fwriedir yw cael penderfyniad terfynol o ran y cynnig i sefydlu canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023. Ystyrir bod y cynnig yn angenrheidiol er mwyn diwallu anghenion dysgwyr sy'n mynd i'r ysgol uwchradd y mae ganddynt Awtistiaeth gymhleth a lle mae angen cymorth arbenigol ychwanegol.

Cyn hynny, roedd gan Ysgol Uwchradd Llan-wern ddarpariaeth arbenigol ar gyfer myfyrwyr gyda diagnosis o Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol. Fel rhan o benderfyniadau cyllideb blwyddyn ariannol 2017/2018, penderfynodd Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dynnu'r cyllid yn ôl yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth hon. Roedd hyn yn cefnogi'r strategaeth y gellid diwallu anghenion disgyblion unigol yn well mewn lleoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) mwy cynhwysol o fewn ysgolion prif ffrwd, a byddai hefyd yn lleihau costau rhedeg gweithredol sylweddol y ddarpariaeth. Cafodd y ddarpariaeth ei chau yn Ebrill 2018 ac fe drosglwyddodd y pum myfyriwr a oedd yn defnyddio'r ddarpariaeth i addysg prif ffrwd gyda chymorth ychwanegol. Roedd pedwar o'r disgyblion hyn yn byw yn nalgylch dynodedig Ysgol Uwchradd Llan-wern, gyda'r pumed yn byw yn nalgylch Ysgol Uwchradd Llyswyry.

Ers cau'r ddarpariaeth arbenigol wreiddiol yn Ysgol Uwchradd Llan-wern, mae'r garfan o ddisgyblion sy'n derbyn diagnosis ffurfiol o Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig (ASA) ar draws Casnewydd wedi bod ar gynnydd. Er bod mwyafrif y disgyblion sydd â'r cyflwr hwn yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd gyda lefelau amrywiol o gymorth, mae carfan gynyddol angen mwy o ddarpariaeth arbenigol er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae anghenion gwybyddus disgyblion yng Nghasnewydd yn dangos bod y galw am leoedd mewn darpariaeth arbenigol ASA yn uwch na’r ddarpariaeth bresennol sydd ar gael yn y ddinas.

Ar hyn o bryd mae gan Gyngor Dinas Casnewydd ddwy ddarpariaeth ASA benodol yn y Ddinas:

1. Mae Ysgol Bryn Derw yn ysgol ASA benodol a sefydlwyd yn 2017. Mae pob disgybl sy'n mynychu'r ysgol wedi cael diagnosis ffurfiol o Awtistiaeth sy'n gymhleth o ran natur ac ni ellir diwallu eu hanghenion mewn darpariaeth prif ffrwd neu Ganolfan Adnoddau Dysgu (CAD). Er mwyn ateb y galw cynyddol, mae capasiti'r ysgol hon wedi cynyddu o 48 pan agorodd i 96 o fis Ebrill 2022, yn gyntaf drwy adnewyddu adeilad atodol ar dir yr ysgol ac yn fwy diweddar drwy greu canolfan lloeren cyfnod sylfaen bwrpasol ar safle hen Ysgol Feithrin Kimberley. Ar hyn o bryd mae 86 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn yr ysgol.

2. Mae canolfan adnoddau dysgu ASA penodol yn Ysgol John Frost. Mae pob disgybl sy'n mynychu wedi cael diagnosis ffurfiol o Awtistiaeth. Mae lle i 20 disgybl yn y ganolfan hon ond o fis Mai 2022, bydd cyfanswm o 25 disgybl yn y ganolfan.

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg a gynhelir yn y gymuned yw Ysgol Uwchradd Llan-wern, sydd wedi'i lleoli yn ward Llan-wern yng Nghasnewydd ac mae'n un o naw ysgol uwchradd yn y ddinas. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion rhwng 11 a 18 oed. Mae ganddi le i 1,450 o ddisgyblion ac mae ganddi Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC) o 260.

Y bwriad yw y bydd y ddarpariaeth newydd yn agor i 4 o ddisgyblion Blwyddyn 7 o fis Medi 2023 i ateb y galw a ragwelir wrth i ddisgyblion bontio o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Bydd y patrwm hwn yn parhau dros y pedair blynedd nesaf nes y bydd y capasiti llawn o 20 lle yn cael ei wireddu o fis Medi 2027.

Bydd y capasiti hwn yn y pen draw yn cyd-fynd â maint y ganolfan sydd eisoes wedi'i sefydlu yn Ysgol John Frost a bydd yn arwain at ddarpariaeth deg ar ochr ddwyreiniol a gorllewinol y ddinas fel bod disgyblion yn gallu mynychu ysgol yn fwy lleol i gyfeiriadau eu cartrefi a lleihau costau lleoliadau y tu allan i'r sir a chostau trafnidiaeth.

Cafodd Cyngor Dinas Casnewydd glywed barn ar y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori a gynhaliwyd rhwng 22 Tachwedd 2022 a 6 Ionawr 2023.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 30 Mawrth 2023 ac roedd ar waith tan 5 Mai 2023. Gwnaeth y cyfnod hwn alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol.

3. **Pwy yw'r prif randdeiliaid a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad a pha ddata sydd gennych arnynt? Ystyried cymunedau o ran lle (pobl sy'n byw yn yr un ardal ddaearyddol) a chymunedau o ddiddordeb (pobl sy'n rhannu nodweddion penodol ond a all fyw mewn gwahanol ardaloedd daearyddol). Gall rhanddeiliaid gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, staff neu bartneriaid.**

Y prif randdeiliaid yw:

- Disgyblion a theuluoedd disgyblion ag ASA mewn dosbarthiadau arbenigol ar hyn o bryd mewn ysgolion cynradd prif ffrwd ledled Casnewydd
- Disgyblion sy’n mynychu Ysgol Uwchradd Llan-wern
- Athrawon, staff a llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Llan-wern
- Athrawon, staff a llywodraethwyr Ysgol Bryn Derw

Mae’r cod statudol yn nodi rhanddeiliaid allweddol, fodd bynnag, nid yw’r rhestr yn gynhwysfawr ac mae’r Cyngor wedi nodi ac ychwanegu ato o ganlyniad i adborth a dderbyniwyd yn sgil cynigion blaenorol. Anfonwyd gwahoddiad i ymgysylltu â'r broses ymgynghori at y grwpiau rhanddeiliaid canlynol:

- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid disgyblion sy’n mynychu’r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai’r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Disgyblion sy’n mynychu’r holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai’r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid plant sydd â diagnosis ASA ac sy’n mynd i ddosbarthiadau arbenigol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghasnewydd;
- Aelodau o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr holl ysgolion y bydd y cynnig hwn yn effeithio arnynt neu y gallai’r cynnig hwn effeithio arnynt;
- Awdurdodau lleol cyfagos ar draws ardal Consortiwm De-ddwyrain Cymru;
- Pennaeth a Chorff Llywodraethu pob ysgol yng Nghasnewydd;
- Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd;
- Pob Cyngor Cymuned yng Nghasnewydd;
- Gweinidogion Cymru;
- Aelodau’r Senedd (ACau) ac Aelodau Seneddol (ASau) sy’n cynrychioli’r ardal a wasanaethir gan yr ysgol sy’n destun y cynnig;
- Awdurdodau Lleol eraill ledled rhanbarth Consortiwm De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys adrannau trafnidiaeth perthnasol;
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru;
- Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Trefynwy;

- Yr Archesgobaeth Gatholig;
- Estyn;
- Undebau staff addysgu a staff cymorth yn cynrychioli athrawon a staff ymhob ysgol yng Nghasnewydd;
- Partneriaeth Datblygu’r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent;
- Comisiynydd y Gymraeg;
- Heddlu Gwent;
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru;
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Canolfan Serennu Casnewydd;
- SNAP Cymru;
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent;
- Gwasanaethau Ataliol.

Roedd yr ymgynghoriad â grwpiau rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys disgyblion Ysgol Uwchradd Llan-wern, trwy drefniant â thîm arwain yr ysgol.

Mae’r bobl y gallai’r cynnig effeithio arnynt fwy na thebyg yn byw yn Nwyrain y Ddinas. Cynigir sefydlu canolfan ASA yn Ysgol Uwchradd Llan-wern. Nodir mai'r ysgol hon yw'r ysgol yr effeithiwyd arni.

Mae poblogaeth ward Llan-wern yn tyfu, gyda'r ystod oedran 0-15 wedi ei nodi fel yr un sy’n tyfu fwyaf yn y ward. Cynyddodd y boblogaeth 0-15 oed gan 26.42% o 2011 i 2017. Hefyd, yn 2017, ward Llan-wern oedd â’r ganran uchaf o blant dan 5 oed yng Nghasnewydd a'r ganran isaf o bobl dros 85 oed o holl wardiau Casnewydd. Mae'r data hwn yn dangos mai teuluoedd ifanc yw demograffeg yr ardal a gall codi tai yn yr ardal arwain at gynnydd pellach yn y demograffeg hwn.

Mae'r tablau isod yn dangos cynnydd bach cyffredinol yng nghanran y disgyblion sy'n gymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim yn Ysgol Uwchradd Llan-wern ac ar draws Casnewydd a Chymru dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae canran Ysgol Uwchradd Llan-wern yn drawiadol uwch na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol a'r cyfartaledd Cenedlaethol.

| Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| Ysgol Uwchradd Llan-wern | 35.4% | 33.7% | 33.1% | 33.7% | 36.9% |
| Casnewydd | 18.4% | 17.5% | 17.3% | 17.7% | 19.5% |
| Cymru | 17.0% | 16.6% | 16.5% | 17.0% | 18.7% |

Mae Ysgol Uwchradd Llan-wern wedi'i lleoli yn ward Ringland ac mae'r data PYADd yn cyd-fynd â'r data proffil ward sy'n dangos bod gan ward Ringland lawer mwy o hawlwyr budd-daliadau o oedran gweithio na chyfartaledd Casnewydd a Chymru. Cofnododd pump o'r chwe Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwy na dwywaith cyfradd Casnewydd.  Mae pob un o chwe AGEHIau ward Ringland wedi'u nodi yn y 50% o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, mae hyn yn cynnwys Ringland 4 a Ringland 5 sydd yn y 10% uchaf o ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf.

Mae dalgylch Ysgol Uwchradd Llan-wern hefyd yn cynnwys ward Alway, ac mae wedi'i leoli yn y ward yma.  Mae data ward yn dangos bod tair o'r chwe AGEHIau wedi cofnodi cyfraddau hawlio budd-daliadau oedran gweithio sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd Casnewydd a Chymru, gydag Alway 2 a 4 â chyfradd sydd bron ddwywaith y cyfartaledd.  Mae pedair o'r chwe AGEHIau wedi'u nodi yn y 50% o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru gan gynnwys Alway 2 ac Alway 4 yn y 10% â'r amddifadedd mwyaf.

Mae cyfran y disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt wedi cynyddu rywfaint dros y 5 mlynedd diwethaf.  Mae'r tabl isod yn dangos bod y ganran sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llan-wern yn is o lawer na chyfartaledd yr Awdurdod Lleol, ond mae'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

| Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| Ysgol Uwchradd Llan-wern | 3.8% | 3.9% | 3.9% | 4.8% | 5.3% |
| Casnewydd | 11.1% | 11.5% | 12.6% | 13.1% | 14.0% |
| Cymru | 3.0% | 3.0% | 2.9% | 2.8% | 2.9% |

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori ffurfiol hwn, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a bydd yn cael ei ddefnyddio i benderfynu a oes angen cyhoeddi hysbysiad statudol neu beidio.  Mae'r AEDCh wedi'i ddiweddaru ar y cam hwn. Mae cyhoeddi hysbysiad statudol yn galluogi rhanddeiliaid i gofnodi gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig.

| |
|---|
| Yn dilyn cyfnod ymgynghori ffurfiol, cafodd Adroddiad Ymgynghori ei baratoi a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a chafodd ei ystyried gan yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar wrth benderfynu a oedd angen cyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio. Cafodd yr AEDCh ei ddiweddaru ar y cam hwn.<br><br>Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar 30 Mawrth 2023 ac roedd ar waith tan 5 Mai 2023. Gwnaeth y cyfnod hwn alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol. |

# Rhan 2: Ymgysylltu

Wrth gwblhau'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth am farn a phrofiadau pobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt. Os na wnewch hynny, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu/ymgynghori cyn parhau. Mae AEDCh yn ddogfen fyw, felly gellir ei diweddaru gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad, a'i diwygio yn ôl yr angen yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl a allai brofi anghydraddoldebau o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys pobl **sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig** (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a phobl sydd **â phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae Addewid Ieuenctid y cyngor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau y **gwrandewir ar bob person ifanc yng Nghasnewydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**.

Mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg), ac efallai yr hoffech ystyried unrhyw ieithoedd cymunedol eraill a siaredir gan bobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad. Isod ceir rhai cwestiynau y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â phenderfyniad a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd:

1. A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
2. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?
3. A ydych yn credu y bydd y penderfyniad/polisi arfaethedig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

**1. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad (y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u nodi)?**

***Ymgynghoriad***

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Roedd y cyfnod ymgynghori rhwng 23 Tachwedd 2022 a 6 Ionawr 2023 ac yn gyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a gwneud sylwadau sydd wedi cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ymgynghori.

**Dosbarthu Gwybodaeth**

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori ffurfiol (y brif ddogfen) cafodd fersiwn addas i Blant a Phobl Ifanc a fersiwn sy'n addas i rai ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig eu cynhyrchu hefyd, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses ymgynghori yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb dan sylw. Roedd yr holl ddogfennau ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg a chroesawyd cwestiynau a phryderon yn Gymraeg a Saesneg. Byddai unrhyw gwestiynau neu bryderon a gafodd eu cyflwyno yn Gymraeg, wedi cael eu hateb yn yr un iaith.

Roedd/mae copïau digidol o'r 3 dogfen ar gael ar-lein ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd ar https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx. Gellid fod wedi gofyn am gopïau caled drwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk neu drwy ffonio 01633 656656, er na dderbyniwyd unrhyw geisiadau o'r fath.

Rhoddwyd copïau caled o'r ddogfen ymgynghori lawn, y fersiwn Crynodeb Bob Dydd i Blant a Phobl Ifanc, a'r fersiwn i rai ag ASA i Ysgol Uwchradd Llan-wern a'r chwe ysgol gynradd yng nghlwstwr Ysgol Uwchradd Llan-wern (Ysgol Gynradd Alway, Ysgol Gynradd Eveswell, Ysgol Gynradd Llanfarthyn, Ysgol Gynradd Milton, Ysgol Gynradd Ringland ac Ysgol Gynradd Somerton) i fod ar gael i'w staff, disgyblion a rhieni.

Roedd y dogfennau ymgynghori yn cynnwys ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad y gellid bod wedi ei anfon i'r cyfeiriad a ddarparwyd, drwy'r post neu dros e-bost. Gellid cyflwyno'r ymatebion hefyd ar-lein o'r ddolen a ddarparwyd ar dudalennau gwe ad-drefnu ysgolion y Cyngor. Gellid cyflwyno cwestiynau a phryderon yn ysgrifenedig hefyd drwy'r post neu dros e-bost. Roedd y ffurflen ymateb yn gofyn i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig; yn cefnogi'r cynnig yn rhannol; neu ddim yn cefnogi'r cynnig; a darparwyd blwch testun i roi rhesymau neu sylwadau. Roedd y ffurflen ymateb hefyd yn gofyn a fyddai'r cynnig yn cael effaith gadarnhaol, negyddol neu niwtral ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac a fyddai'r cynnig yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cafodd gwahoddiad i gymryd rhan yn y broses ymgynghori ei e-bostio at y rhestr rhanddeiliaid uchod, gan gynnwys rhieni/gofalwyr plant gydag ASA, disgyblion a staff yr ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Cafodd negeseuon e-bost rhanddeiliaid hefyd eu hanfon at bartneriaid addysg Cyngor Dinas Casnewydd. Cafodd y cynnig ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd. Mae gwybodaeth yr ymgynghoriad wedi cael ei rhannu ar dudalennau Facebook a Twitter Cyngor Dinas Casnewydd ac fe'i cynhwyswyd yng Nghylchlythyr y Preswylwyr ar 1 Rhagfyr 2022.

**<u>Sesiynau Galw Heibio</u>**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 2 sesiwn galw heibio yn Ysgol Uwchradd Llan-wern gyda'r rhai yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt. Roedd swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynigion yn fanylach ac ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a godwyd gan y cyhoedd. Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio Rhif 1 ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022 ac roedd 10 o randdeiliaid yn bresennol, gan gynnwys rhieni/gwarcheidwaid, athrawon/staff yr ysgol, a Llywodraethwyr.

Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio 2 ddydd Iau 15 Rhagfyr 2022 ac roedd 16 o randdeiliaid yn bresennol, gan gynnwys rhieni/gwarcheidwaid y plant oedd yn defnyddio darpariaeth Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (LlIC) yr ysgol, athrawon/staff yr ysgol, a Llywodraethwyr.

Roedd copïau caled o'r holl fersiynau o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn y ddwy sesiwn. Cynigiwyd ffurflen ymateb yr ymgynghoriad i'r holl fynychwyr i'w gwblhau yn y ddwy sesiwn, er na wnaeth yr un o'r mynychwyr fanteisio ar y cynnig.

**<u>Sesiwn Llais y Disgybl</u>**

Roedd y Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr, a hwyluswyd hyn gyda disgyblion o Gyngor yr Ysgol yn Ysgol Uwchradd Llan-wern ddydd Mawrth 6 Rhagfyr 2022. Daeth tua 35 o ddisgyblion yno a chawsant gyfle i ofyn cwestiynau a chwblhau arolygon.

Ystyriwyd sesiwn llais y disgybl i gynnwys disgyblion ag ASA. Fodd bynnag, gan y gall fod gan ddisgyblion â diagnosis Anhwylder y Sbectrwm Awtistig lefelau pryder uchel ac y gallant gael trafferth ymdopi â newid, ni wnaed hyn.

***Hysbysiad Statudol***

Yn dilyn ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd y safbwyntiau a fynegwyd a phenderfynodd fwrw ymlaen â'r cynnig. Roedd yr hysbysiad statudol ar waith rhwng 30 Mawrth 2023 a 5 Mai 2023 ac fe'i cyhoeddwyd ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a chafodd hysbysiadau eu harddangos ar gatiau Ysgol Uwchradd Llan-wern. Anfonwyd e-bost at yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori, gan roi gwybod iddynt fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Gwnaeth cyfnod yr hysbysiad statudol alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf

cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol.  Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol.

**2. Beth ydych chi'n ei wybod am farn neu brofiadau pobl y gallai eich penderfyniad effeithio arnynt?**

Y bobl y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt yw plant oed ysgol a'u teuluoedd a bydd diagnosis ASA yn effeithio ar rai ohonyn nhw.

Mae disgyblion mewn darpariaeth arbenigol ASA mewn ysgolion cynradd ledled Casnewydd yn rhanddeiliaid allweddol yn y cynnig hwn a nhw mae'n debyg fydd yn cael eu heffeithio fwyaf.  Ar hyn o bryd mae yna 94 o ddisgyblion yn derbyn darpariaeth arbenigol ASA, yn amrywio o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 6 (4-11 oed).  Mae'r tabl isod yn dangos y 94 disgybl yn ôl grŵp blwyddyn.

| Disgyblion ASA cynradd mewn darpariaeth arbenigol ASA mewn ysgolion cynradd – Mai 2022 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Dosbarth Derbyn** | **Blwyddyn 1** | **Blwyddyn 2** | **Blwyddyn 3** | **Blwyddyn 4** | **Blwyddyn 5** | **Blwyddyn 6** | **Cyfanswm** |
| 2021/22 | 7 | 14 | 14 | 15 | 14 | 12 | 18 | **94** |

Mae'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Llan-wern hefyd yn rhanddeiliaid allweddol yn y cynnig hwn, a hynny oherwydd bod y ganolfan ASA arfaethedig wedi'i lleoli yn yr Ysgol. Ar hyn o bryd, mae 965 o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Uwchradd Llan-wern ym Mlynyddoedd 7 - 13 (11-18 oed). Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm niferoedd y disgyblion yn yr ysgol yn ôl grŵp blwyddyn.

| Ysgol Uwchradd Llan-wern (Ysgol Gyfan) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd Disgyblion – CYBLD Ionawr 2022** | | | | | | | | |
| **Blwyddyn** | **Blwyddyn 7** | **Blwyddyn 8** | **Blwyddyn 9** | **Blwyddyn 10** | **Blwyddyn 11** | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** | **Cyfanswm** |
| **Ysgol Uwchradd Llan-wern** | 186 | 162 | 167 | 162 | 136 | 71 | 81 | **965** |

Cafwyd ymgynghoriad gyda'r rhanddeiliaid a restrir uchod a chafwyd adborth/safbwyntiau gan:

- Ymateb ar ffurflen (yn ddigidol a thrwy gopïau caled)
- Sesiynau galw heibio

- Sesiwn Llais y Disgybl

**Canlyniadau Ymatebion ar Ffurflen**

Derbyniwyd 97 ymateb drwy'r ffurflen ymateb, gyda 74% yn cefnogi'r cynnig. Roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig gan fod y ddarpariaeth yn hanfodol ac nad oes digon o lefydd uwchradd ADY yng Nghasnewydd ar hyn o bryd. Nododd rhai bod plant a rhieni angen darpariaeth o ansawdd uchel yn agos i'w cartref ac y bydd y cynnig yn lleihau costau trafnidiaeth ac amser teithio.

Roedd 5% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig 'Yn rhannol' gan ddweud nad oedd yr 20 lle arfaethedig yn ddigon. Cafwyd sylw arall eu bod yn cefnogi'r ganolfan ASA arfaethedig, ond nid ar draul y rhai sydd ar hyn o bryd yn y LlIC yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn symud i ddosbarthiadau prif ffrwd.

Doedd 21% o'r ymatebwyr ddim yn cefnogi'r cynnig. Nododd pob un ond dau o'r ymatebwyr nad oedd yn cefnogi'r cynnig eu bod yn credu y byddai'r ddarpariaeth arfaethedig yn golygu cau'r ddarpariaeth LlIC bresennol yn yr ysgol, ac y byddai'n effeithio'n negyddol ar addysg a lles y disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd, gan y byddent yn cael eu symud i ddosbarthiadau prif ffrwd mawr.

**Sesiynau Galw Heibio**

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 2 sesiwn galw heibio yn Ysgol Uwchradd Llan-wern gyda'r rhai hynny yr oedd y cynnig yn effeithio arnynt.

**Sesiwn Galw Heibio 1**

Mynegodd y rhanddeiliaid oedd yn bresennol bryder y byddai'r cynnig yn golygu cau darpariaeth LlIC bresennol yr ysgol ac y byddai'r disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth hon ar hyn o bryd yn cael eu dychwelyd i ddosbarthiadau prif ffrwd mawr. Eglurwyd nad oedd hyn yn wir, ond y byddai angen adleoli'r ddarpariaeth bresennol o fewn yr ysgol. Eglurwyd hefyd fod y Cyngor o'r farn fod digon o gapasiti o fewn adeilad yr ysgol i hwyluso hyn. Mynegodd rhanddeiliaid rwystredigaeth a phryder nad oedd ateb ar gyfer y ddarpariaeth LlIC bresennol wedi'i gyflwyno fel rhan o'r cynnig hwn. Fe wnaeth rhiant-lywodraethwr oedd yn bresennol gwestiynu dilysrwydd y broses ymgynghori. Fe gadarnhaodd Swyddogion y Cyngor bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Mae ymateb y Cyngor i'r cwestiynau a godwyd yn y sesiwn galw heibio wedi ei gyhoeddi fel adran 'Cwestiynau ac Atebion' ar wefan y Cyngor, ac maent hefyd yn yr adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd.

**Sesiwn Galw Heibio 2**
Roedd rhanddeiliaid a fynychodd yr ail ddigwyddiad galw heibio yn cynnwys rhieni, gofalwyr a theuluoedd disgyblion sy'n elwa ar ddarpariaeth LlIC yr ysgol, ac athrawon a staff yr ysgol. Fe wnaeth y rhai oedd yn bresennol godi'r un pryderon â'r rhai a oedd yn bresennol yn y sesiwn gyntaf.

Roedd copïau caled o'r holl fersiynau o'r ddogfen ymgynghori ar gael i fynychwyr y ddwy sesiwn. Cynigiwyd ffurflen ymateb yr Ymgynghoriad i'r holl fynychwyr i'w chwblhau fel y gallai eu sylwadau a'u barn ar y cynnig gael eu cofnodi yn yr adroddiad ymgynghori hwn. Ni wnaeth yr un o'r mynychwyr fanteisio ar y cynnig o gwblhau copi caled o'r ffurflen yn y sesiwn galw heibio.

**<u>Sesiwn Llais y Disgybl</u>**

Yn ystod y sesiwn, cafodd y disgyblion gyfle i ofyn cwestiynau/gwneud sylwadau. Cododd y disgyblion y materion canlynol:

- Pam symud yr LlIC i leoliad gwahanol?
- Gall y cynnig effeithio ar ddisgyblion sydd yn yr LlIC ar hyn o bryd
- Mae angen atgynhyrchu'r LlIC rhywle arall yn yr ysgol

Cwblhaodd y disgyblion gopïau caled o'r Ffurflen Ymateb yn ystod y sesiwn. Derbyniwyd 20 ymateb, ac roedd pob disgybl y cefnogi'r cynnig. Codwyd nifer o sylwadau tebyg, a chrynhoir y rhain isod:

- Cyfle gwych i gynyddu'r gefnogaeth i ddisgyblion ag ASA.
- Mae plant sydd ag ASA angen y gofod/help ychwanegol hwnnw.
- Gall y ganolfan helpu i ostwng nifer y disgyblion sy'n cael eu bwlio oherwydd eu hanabledd.
- Bydd y ganolfan yn lle diogel i ddisgyblion ag ASA. Os yw disgyblion yn teimlo eu bod wedi'u llethu, maen nhw mewn amgylchedd diogel.
- Gallai'r cynnig effeithio ar ddisgyblion sydd yn yr LlIC ar hyn o bryd. Mae angen atgynhyrchu'r LlIC mewn rhan arall o'r ysgol.

**<u>Hysbysiad Statudol</u>**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion na gwrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Bydd yr Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol.

# Rhan 3: Asesu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith bosibl eich penderfyniad ar amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfanteision penodol. Dylai eich asesiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth – naill ai o'ch ymgysylltiad/ymgynghoriad eich hun, ymgysylltu tebyg neu flaenorol, yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, neu o ffynonellau gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae dogfennau defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar gymunedau yn cynnwys Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – A yw Cymru'n Decach? ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19 gan y cyngor. Efallai y bydd eich penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol – os felly, rhowch groes yn y ddau flwch.

## 1. Effaith ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Caiff Nodweddion Gwarchodedig eu diffinio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a disgrifiant grwpiau o bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, naill ai yn y gweithle, neu drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol. Gellir dod o hyd i ganllawiau cenedlaethol ar asesu effeithiau cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yma. Gallwch hefyd gael cyngor pellach ac enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol yma.
https://www.equalityhumanrights.com/cy/equality-act/nodweddion-gwarchodedig

| **Nodwedd Warchodedig** | Effaith: **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **y naill na'r llall** | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br><br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Oedran** | ☒ | ☒ | ☐ | Mae'n debygol y bydd y cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth gyda chanolfan adnoddau ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn cael effaith gadarnhaol yn y dyfodol ar ddisgyblion oedran cynradd sydd ag ASA, pan fyddant yn symud i addysg uwchradd. Drwy ddarparu mwy o lefydd uwchradd ASA yn y ddinas, bydd hyn yn caniatáu i ddisgyblion fynychu ysgol yn agosach at adref a lleihau nifer y disgyblion sy'n gorfod mynychu darpariaeth y tu allan i'r Sir.<br><br>Roedd rhai ymgynghorwyr yn credu y byddai'r cynnig yn golygu cau darpariaeth bresennol ysgol sy'n cefnogi 23 o ddisgyblion ac sy'n elwa o ddosbarthiadau llai a chefnogaeth wedi'i deilwra. Nid yw hyn yn wir, ond mae'r cynnig yn golygu y byddai'r ddarpariaeth honno'n cael ei hadleoli i ardal arall o fewn yr ysgol. Efallai'n |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Effaith: Negyddol | Effaith: y naill na’r llall | Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:<br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | wir fod hyn yn peri gofid i rai o'r disgyblion yn y tymor byr, ac mae hyn yn cael ei nodi fel effaith negyddol o'r cynnig. |
| | | | | |
| **Anabledd** | ☒ | ☒ | ☐ | Bydd darparu canolfan adnoddau ychwanegol yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn cynnig llwybr pontio clir rhwng y cyfnodau addysg cynradd ac uwchradd i ddisgyblion sy'n cael diagnosis o ASA ac sy'n byw yn nwyrain y ddinas, gan leihau lefel y ddibyniaeth ar leoliadau y tu allan i'r sir i ddisgyblion sy'n byw yng Nghasnewydd. Bydd y ganolfan ag adnoddau priodol yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â’r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Bydd y cynnig felly yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion oedran uwchradd sydd ag ASA.<br><br>Roedd rhai ymgynghorwyr yn credu y byddai'r cynnig yn golygu cau darpariaeth bresennol ysgol sy'n cefnogi 23 o ddisgyblion ag anghenion dysgu amrywiol, ac sy'n elwa o ddosbarthiadau llai a chefnogaeth wedi'i deilwra. Nid yw hyn yn wir, ond mae’r cynnig yn golygu y byddai’r ddarpariaeth honno’n cael ei hadleoli i ran arall o’r ysgol. Efallai'n wir fod hyn yn peri gofid i rai o'r disgyblion yn y tymor byr, ac mae hyn yn cael ei nodi fel effaith negyddol o'r cynnig. |
| | | | | |
| **Ailbennu Rhywedd / Trawsryweddol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Priodas neu bartneriaeth sifil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Beichiogrwydd neu famolaeth** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |

| Nodwedd Warchodedig | Effaith: Cadarnhaol | Effaith: Negyddol | Effaith: y naill na'r llall | **Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor:**<br>1. Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiau<br>2. Hyrwyddo cydlyniad cymunedol<br>3. Helpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon? |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Hil** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Rhywedd** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon. |
| | | | | |

## 2. Effaith ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor ystyried yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. Am arweiniad pellach ar ystyriaethau'r Gymraeg gweler yma.

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Y naill na'r llall** | |
| | | | | |
| **Y Gymraeg** | ☐ | ☐ | ☒ | Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchodedig hon.<br><br>Bydd y disgyblion fydd yn cael cynnig llefydd yn y ganolfan ASA wedi pontio o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mewn ysgolion cynradd Saesneg, Saesneg yw prif iaith cyfathrebu mewnol yr ysgol yn ogystal â gyda rhieni a gofalwyr. Mae cydnabyddiaeth y bydd creu ethos Gymraeg yn yr ysgol yn cefnogi ac yn annog agweddau cadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu darllen, ysgrifennu, siarad a gwrando yn Saesneg yn ôl oedran a gallu, a bydd ganddo rywfaint o ddealltwriaeth o'r Gymraeg. Bydd y Gymraeg yn cael ei haddysgu a'i hasesu'n rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ar gyfer ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu. Bydd o leiaf 15% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg, gan hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd. Mae'r cynnig yn debygol o gynyddu nifer y swyddi lle mae angen sgiliau'r Gymraeg a bydd yn annog athrawon a staff ysgolion cyfrwng Saesneg i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ac yn rhoi cyfle i drosglwyddo'r Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y cyngor yn nodi ymrwymiad i agor Canolfan Adnoddau Dysgu Cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli, a bydd asesiad o anghenion disgyblion yn llywio'r amser priodol i'w sefydlu. Bydd y ddarpariaeth newydd yn cynorthwyo ysgolion Cymraeg eraill i nodi disgyblion gydag ADY sylfaenol, a bydd dull cydweithredol yn nodi'r ffyrdd gorau o fodloni'r anghenion hyn.<br><br>Bydd datblygu CAD cynradd yn effeithio ar y ddarpariaeth uwchradd, felly bydd angen ystyried darpariaeth ADY arbenigol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed ar gyfer disgyblion sy'n pontio o Ganolfan Adnoddau Dysgu'r sector cynradd. Bydd y gwaith o ddatblygu CAD Uwchradd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan ystyried |

| | Effaith: | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cadarnhaol** | **Negyddol** | **Y naill na'r llall** | |
| | | | | dadansoddiad o dueddiadau data yn dilyn agor y CAD Cynradd. Bydd hyn yn sicrhau y gellir bodloni anghenion ADY disgyblion sy'n pontio i'r Ysgol Uwchradd mewn modd amserol.<br><br>Bydd sefydlu CAD Gynradd yn Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli a'r ddarpariaeth ADY arbenigol yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed yn y dyfodol agos yn hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ag ADY astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y canolfannau arbenigol cyfrwng Cymraeg yn arwain at gynnydd yn nifer y swyddi sy'n gofyn am sgiliau Cymraeg ac yn cael effaith gadarnhaol ar wneud y Gymraeg yn fwy gweladwy.<br><br>Nod y Ddeddf ADY yw bod yn system gymorth ddwyieithog a diogelu plant sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg. Os yw'n ofynnol i ddarpariaeth plentyn fod yn Gymraeg, rhaid dogfennu hyn yn y Cynllun Datblygu Unigol a chymryd 'pob cam rhesymol' i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.<br><br>Mae'r Ddeddf ADY yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau lle na ellir cynnig darpariaeth yn Gymraeg gyda gwasanaethau neu driniaethau arbenigol lle nad oes modd cael ymarferydd sy'n siarad Cymraeg er gwaethaf ymdrechion i ddod o hyd i un.<br><br>Nid yw'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar gynlluniau'r Cyngor ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg ledled Casnewydd fel yr amlinellir yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd. Cydnabyddir na fydd y cynnig hwn yn cyfrannu at dargedau'r Cyngor o ran Cymraeg 2050. |
| | | | | |

1. **Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd ac effaith eich penderfyniad ar y Gymraeg.**

| |
|---|
| Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn ddwyieithog, a chafodd barn siaradwyr Cymraeg ei gofnodi gan fod yr holl ddogfennau ymgynghori yn ddwyieithog ac wedi'u dosbarthu a'u rhannu gyda phob ysgol gan gynnwys rhai cyfrwng Cymraeg.<br><br>Roedd croeso i'r holl ymatebion gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac os oedd angen, byddai ymateb wedi cael ei ddarparu yn Gymraeg. |

Er mwyn sicrhau bod ymgynghoriad cyfartal yn cael ei gyflawni yn Gymraeg ac yn Saesneg, mae Cyngor Dinas Casnewydd:

- Wedi sicrhau bod yr holl ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd ar gael yn ddwyieithog
- Sicrhau bod holl negeseuon e-bost rhanddeiliaid yn ddwyieithog
- Sicrhau bod fersiwn Gymraeg o dudalen we yr ymgynghori ar wefan CDC
- Cynnig gwasanaethau cyfieithu mewn sesiynau galw heibio os oedd angen
- Annog rhanddeiliaid i ymateb i'r ymgynghoriad yn Gymraeg
- Wedi sicrhau bod yr holiadur ymgynghori yn gofyn cwestiynau penodol mewn perthynas ag effaith gadarnhaol neu negyddol bosibl y prosiect ar y cyfle i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg

Atebodd 96 o'r 97 o ymatebwyr y cwestiwn: '*Ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?'.* Atebodd 24 ymatebydd (25%) 'Cadarnhaol', atebodd 62 o ymatebwyr (64%) 'Dim effaith', ac atebodd 10 ymatebydd (10%) 'Negyddol', er bod y sylwadau a fynegwyd yn awgrymu bod y cwestiwn wedi'i gamddeall.

Mewn ymateb i'r cwestiwn '*A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?',* atebodd 16 o'r ymatebwyr, 'Ydw'. Fodd bynnag, fel yn achos y cwestiwn blaenorol mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi camddeall y cwestiwn.

Yn dilyn ymgynghoriad, ystyriodd Aelod Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar Cyngor Dinas Casnewydd y safbwyntiau a fynegwyd a phenderfynodd fwrw ymlaen â'r cynnig. Cyhoeddwyd hysbysiad statudol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chafodd copïau dwyieithog eu harddangos ar gatiau ysgol Uwchradd Llan-wern.

Anfonwyd e-bost dwyieithog at yr holl randdeiliaid, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori, gan roi gwybod iddynt fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Roedd croeso i'r holl ymatebion/gwrthwynebiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac byddai ymateb yn cael ei ddarparu yn Gymraeg yn ôl yr angen.

## 3. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n helpu sefydliadau i ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau hirdymor. Isod, ystyriwch sut mae eich penderfyniad yn hyrwyddo, yn datblygu, neu'n gwrth-ddweud y 5 ffordd o weithio sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallwch weld canllawiau pellach ar ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy yma.

| | | |
|---|---|---|
| Hirdymor | *Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.* | Y canlyniad a fwriedir yw sefydlu canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) â 20 lle yn Ysgol Uwchradd Llan-wern o fis Medi 2023, er mwyn bodloni anghenion dysgwyr sy'n mynd i'r ysgol uwchradd sydd ag Awtistiaeth cymhleth ac mae angen adnodd arbenigol ychwanegol arnynt.<br><br>Mae gan Gyngor Dinas Casnewydd garfan gynyddol o ddisgyblion sy'n derbyn diagnosis ffurfiol o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA). Er bod mwyafrif y disgyblion sydd â'r cyflwr hwn yn gallu mynychu ysgolion prif ffrwd gyda lefelau amrywiol o gymorth, mae carfan gynyddol angen mwy o ddarpariaeth arbenigol er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r gofyniad hwn yn fwy na'r ddarpariaeth sydd ar gael yn y Ganolfan ASA bresennol yn Ysgol John Frost ac ym mis Mai 2022, roedd 25 o ddisgyblion mewn darpariaeth â 20 lle.<br><br>Byddai'r ganolfan yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn cynnig 4 lle i ddechrau, gan gynnig 4 lle ychwanegol bob blwyddyn academaidd hyd nes y byddai'r ganolfan yn cynnig 20 lle, gan gymryd 5 mlynedd i gyrraedd y nod.<br><br>Mae hyn yn cydbwyso'r anghenion tymor byr dros y 5 mlynedd nesaf trwy gynyddu'r ddarpariaeth bob blwyddyn yn raddol pan fo angen. Bydd y ddarpariaeth yn parhau i gynnig 20 lle, 4 lleoliad y flwyddyn ar gyfartaledd mwy na thebyg i ddiwallu anghenion dros y tymor hir.<br><br>Mae'r galw am leoedd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei adolygu'n barhaus a'i adrodd drwy grŵp Cynllunio Lleoedd Ysgolion y |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyngor. Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i ystyried opsiynau pellach ar gyfer darpariaeth ADY yn y dyfodol yn unol â'r galw. |
| Atal | *Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu* | Bydd sefydlu canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn atal disgyblion yn y dyfodol rhag gorfod teithio i leoliadau y tu allan i'r sir a byddant yn gallu mynychu ysgol yn agosach at adref.<br><br>Bydd y ganolfan arfaethedig yn Ysgol Uwchradd Llan-wern hefyd yn atal pwysau pellach ar y ganolfan yn Ysgol John Frost sydd wedi'i gordanysgrifio ar hyn o bryd. |
| Integreiddio | *Ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.* | Mae ymgynghoriad statudol ffurfiol wedi'i gynnal ac mae'r hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi. Mae'r rhain wedi'u cefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried effaith y cynnig. Mae'r cynnig hwn yn cefnogi Nodau Llesiant "Cymru ffyniannus", "Cymru fwy cyfartal" a "Chymru â chymunedau cydlynol" ac nid yw'n cael effaith niweidiol ar unrhyw un o'r Nodau Llesiant eraill.<br><br>Hefyd, mae'r cynnig hwn yn cefnogi Amcan Lles Cyngor Dinas Casnewydd i "wella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth".<br><br>Barnwyd bod lles ac agweddau tuag at ddysgu yn rhagorol yn Ysgol Bryn Derw. Bydd canolfan ASA yn Ysgol Uwchradd Llan-wern yn cael ei datblygu gyda mewnbwn a hyfforddiant gan Ysgol Bryn Derw i sicrhau y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar les ac agweddau disgyblion tuag at ddysgu, yn unol â'r cwricwlwm. |
| Cydweithio | *Cydweithio i gyflawni amcanion* | Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol gyda'r cyfle i ymgysylltu â'r holl randdeiliaid a chafodd ei gefnogi ar bob cam gan AEDCh i ystyried yr effaith.<br><br>Cafodd hysbysiad statudol ei gyhoeddi i alluogi pobl i fynegi eu safbwyntiau ar ffurf cefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. Cafodd yr AEDCh ei ddiweddaru ar y cam hwn. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol. Bydd yr Aelod |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar nawr yn gwneud y penderfyniad terfynol.<br><br>Bydd aelodau'r adran addysg, sef y Tîm Anghenion Addysgol Arbennig, Ysgol Bryn Derw ac Ysgol Uwchradd Llan-wern yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu'r ganolfan ASA. |
| Cynnwys Pobl | *Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn - gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.* | Yn ystod y cam ymgynghori, ymgysylltodd Cyngor Dinas Casnewydd â rhanddeiliaid (sydd wedi'u rhestru yn Adran 3) a'r ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig. Cynhaliwyd sesiynau galw heibio cyhoeddus lle bu swyddogion y Cyngor wrth law i esbonio'r cynnig ac ateb unrhyw gwestiynau.<br><br>Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael ar-lein yn https://www.newport.gov.uk/cy/Schools-Education/School-reorganisation/School-reorganisation.aspx ac roedd dogfennau ymgynghori papur ar gael ar gais. Cafodd sawl copi o'r dogfennau eu cyflwyno i Ysgol Uwchradd Llan-wern a'r ysgolion cynradd o fewn y clwstwr.<br><br>Cafodd dogfen ymgynghori Plant a Phobl Ifanc a fersiwn ASA eu darparu a chawsant eu dosbarthu i'r ysgolion yr effeithiwyd arnynt. Darparwyd y rhain hefyd yn y sesiwn llais disgyblion.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn Llais y Disgybl yn Ysgol Uwchradd Llan-wern i glywed barn y disgyblion ar y cynigion.<br><br>Yn ystod cyfnod yr hysbysiad statudol, anfonwyd e-bost at yr holl randdeiliaid (sydd wedi'u rhestru yn adran 3, gan gynnwys y rheiny a wnaeth ddewis derbyn diweddariadau ar y cynnig trwy'r ffurflen ymateb yn ystod y cam ymgynghori), gan roi cyfle iddynt gefnogi neu wrthwynebu'r cynnig. |

## 4. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir bod anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn cael eu teimlo'n fwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Diffinnir 'penderfyniad strategol' gan Lywodraeth Cymru fel penderfyniad **sy'n effeithio ar sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac nad yw'n cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol.** Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Pennu amcanion strategol llesiant, cydraddoldeb ac amcanion eraill
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, neu eu datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Datblygu polisïau strategol

Os nad ydych yn credu bod eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad hwn, ac nad ydych yn bwriadu cynnal Asesiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn yr adran hon, rhowch eich rhesymeg isod. Bydd unrhyw benderfyniad a gyflwynir i Aelod Cabinet, yn y Cabinet neu'r Cyngor, yn cael ei ystyried yn benderfyniad strategol.

| |
|---|
| |

Os yw eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad, ystyriwch effaith eich penderfyniad ar y grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol a geir yn y matrics isod. Nid yw'r grwpiau a restrir yn gynhwysfawr a dylech ystyried unrhyw grwpiau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad a allai brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- **Incwm Isel/Tlodi Incwm** - yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafnidiaeth ac ati.
- **Isel a/neu ddim Cyfoeth** - digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol
- **Amddifadedd Materol** - methu â chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobïau ac ati)
- **Amddifadedd Ardal** - lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafnidiaeth gyhoeddus)

- Cefndir Economaidd-Gymdeithasol – er enghraifft, addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni

Nodwch effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'r ddau lle maent yn gymwys, a difrifoldeb yr effaith hon drwy godio rhannau'r grid yn seiliedig ar yr isod. *Os nad oes effaith/neu ei fod yn niwtral, gadewch yn wag.*

| **Effaith Negyddol** | | **Effaith Gadarnhaol** | |
|---|---|---|---|
| N1 | Effaith negyddol – ysgafn | G1 | Effaith gadarnhaol – ysgafn |
| N2 | Effaith negyddol – cymedrol | G2 | Effaith gadarnhaol – cymedrol |
| N3 | Effaith negyddol – sylweddol | G3 | Effaith gadarnhaol – sylweddol |
| N4 | Potensial ar gyfer effaith negyddol (ond yn ansicr) | G4 | Potensial ar gyfer effaith gadarnhaol (ond yn ansicr) |

| **Meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol – diffiniadau** |
|---|
| **Addysg** :Y gallu i fod yn wybodus, i ddeall a rhesymu, ac i gael y sgiliau a'r cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac mewn cymdeithas |
| **Gwaith:**Y gallu i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os nad yw'n ddi-dâl, i beidio â chael ei atal rhag gweithio ac i fod yn rhydd o gaethwasiaeth, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio |
| **Safonau Byw:** Y gallu i fwynhau safon byw gyfforddus, mewn tai priodol, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal a chefnogaeth pan fo angen. |
| **Cyfiawnder, Diogelwch Personol a Diogelwch Cymunedol**: Y gallu i osgoi marwolaethau cynamserol, byw mewn diogelwch, a gwybod y cewch eich diogelu a'ch trin yn deg gan y gyfraith |
| **Iechyd:** Y gallu i fod yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol, bod yn rhydd mewn materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac atgenhedlu, a chael ymreolaeth dros ofal a thriniaeth a chael gofal yng nghamau olaf eich bywyd |
| **Cyfranogiad:** Y gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn cymunedau, cael mynediad at wasanaethau, gwybod y caiff eich preifatrwydd ei barchu, a mynegi eich hun |

| **Grwpiau** | **Meysydd anghydraddoldeb** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safonau Byw | Gwaith | Iechyd | Addysg | Cyfiawnder a diogelwch cymunedol | Cyfranogi | Amgylchedd ffisegol |
| Plant sy'n byw mewn tlodi | | | G2 | G2 | | G2 | G3 |
| Aelwydydd incwm isel heb blant dibynnol | | | | | | | |
| Pobl ifanc ddi-waith | | G4 | | | | | |
| Di-waith am gyfnod hir? | | G4 | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelwydydd digartref | | | | | | | |
| Ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches | | G4 | G4 | G2 | | | G2 |
| Cymdogaethau difreintiedig - Safle MALlC yn y 10% isaf o'r ACEHI mwyaf difreintiedig | | | | | | | |
| Pobl ar Gredyd Cynhwysol / budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm | | | G4 | G4 | | | |
| Oedolion heb gymwysterau neu gymwysterau isel | | | | | | | |
| Pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd isel neu mewn Tai Amlfeddiannaeth | | | G4 | G4 | | G4 | G4 |

1. **Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau yn ymwneud â'r penderfyniad hwn?**

Fel cynllun 'Addysg', bydd yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran canlyniadau mewn addysg drwy gynyddu nifer y lleoliadau ASA ledled y ddinas. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau lles Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal a'r amcan lles i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth.

Ni fydd disgyblion yn cael eu derbyn i'r ganolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASA) arfaethedig drwy drefniadau derbyn arferol y Cyngor. Yn hytrach, byddai'r broses dderbyn yn seiliedig ar anghenion unigol yn dilyn asesiad gan y Tîm Cynhwysiant Addysg. Byddai mwy o ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ASA yn cael effaith fuddiol ar gydraddoldeb mynediad i addysg briodol.

2. **Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghasnewydd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol.**

Roedd y wybodaeth am yr ymgynghori ar gael a chafodd ei rhannu â'r holl grwpiau ar draws Casnewydd. Roedd fersiynau o'r dogfennau ar gael ar ffurf lawn, fel fersiwn gryno hawdd ei darllen a anelwyd at blant a phobl ifanc ac roedd fersiwn ASA ar gael. Roedd y dogfennau hyn ar gael yn ddigidol ac ar ffurf papur ar amrywiaeth o lwyfannau digidol ar-lein ac mewn lleoliadau amrywiol ledled y ddinas. Ar glawr tu mewn y dogfennau ymgynghori, darparwyd rhestr o ieithoedd y gellid bod wedi cyfieithu'r ddogfen iddynt ar gais. Roedd hyn yn galluogi pobl o bob grŵp i gyrchu'r ymgynghoriad. Mae'r adroddiad ymgynghori a gyhoeddwyd yn

| |
|---|
| rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd ynglŷn â'r cynnig, a chafodd ei ddefnyddio gan yr Aelod Cabinet wrth benderfynu sut i symud ymlaen i'r cam Hysbysiad Statudol.<br><br>Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol yn ddigidol ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd a darparwyd cyfeiriad e-bost a rhif ffôn os oedd angen i rywun ofyn am gopi caled o'r dogfennau. Roedd trefniadau ar waith i gyfieithu'r hysbysiad statudol i iaith arall yn ôl y gofyn. Arddangoswyd copïau ffisegol o'r hysbysiad statudol ar gatiau Ysgol Uwchradd Llan-wern. |

**3. A yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronnol?**

| |
|---|
| Ydi. Dyma'r trydydd cynnig i gynyddu'r ddarpariaeth i ddisgyblion ag ASA ers sefydlu Ysgol Bryn Derw yn 2017. Cynyddodd y ddau gynnig blaenorol gapasiti Ysgol Bryn Derw o 48 i 68, ac o 68 i 96, fel yr amlinellir yn yr asesiad hwn. |

# Rhan 3: Camau Gweithredu a Chanlyniadau

O ystyried unrhyw effeithiau negyddol yr ydych wedi'u nodi, nodwch isod sut y byddwch yn lleihau'r rhain, a sut y byddwch yn monitro effaith bosibl. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich cynllun gweithredu ar gael yma.

| EFFAITH AR BOBL SY'N RHANNU NODWEDDION GWARCHODEDIG | | | |
|---|---|---|---|
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| Mae adleoli darpariaeth LlIC bresennol y mae 23 o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Llan-wern yn ei defnyddio, i ardal arall o'r ysgol yn debygol o achosi rhywfaint o bryder a gofid tymor byr i rai disgyblion a'u teuluoedd. | Bydd y ddarpariaeth yn cael ei hadleoli i ran arall o'r ysgol, a bydd y disgyblion yn parhau i gael eu cefnogi gan yr un athrawon a staff, mewn amgylchoedd cyfarwydd. Iechyd, diogelwch a lles pob disgybl yw prif gonsyrn yr Awdurdod Lleol ac Ysgol Uwchradd Llan-wern. | Bydd hapusrwydd a lles disgyblion sy'n defnyddio'r ddarpariaeth LlIC yn cael eu hasesu gan athrawon a staff gyda chefnogaeth tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Cyngor Dinas Casnewydd. | Tîm ADY CDC |
| | | | |
| | | | |
| **EFFAITH AR Y GYMRAEG** | | | |

| Crynodeb o'r effaith | Camau i leihau effaith negyddol | Sut y caiff yr effaith hon ei monitro | Perchennog |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| **EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY** | | | |
| **Crynodeb o'r effaith** | **Camau i leihau effaith negyddol** | **Sut y caiff yr effaith hon ei monitro** | **Perchennog** |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Unwaith y bydd eich AEDCh wedi'i gwblhau, anfonwch ymlaen at nccequality@newport.gov.uk